



Canllawiau Dirprwyo ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd



Canlyniadau Dysgu

- Diffinio'r termau dirprwyo ac atebolrwydd
- Deall rolau a chyfrifoldebau gweithwyr cymorth a rheolwyr llinell
- Deall goblygiadau dirprwyo amhriodol
- Amlinellu deddfwriaeth allweddol a pholisi sefydliadol

Diben Canllawiau Cymru Gyfan ar Ddirprwyo

Cafodd y canllawiau cenedlaethol hyn eu datblygu i gynorthwyo gyda rheoli ac ymarfer pob gweithred o ddirprwyo priodol.

Maent wedi'u datblygu yn bennaf i gefnogi staff clinigol, fodd bynnag, gellid cymhwyso'r egwyddorion i'r holl grwpiau staff ar draws gofal iechyd a chymdeithasol.

Nid yw'r canllawiau hyn yn berthnasol i ofalwyr di-dâl neu i wirfoddolwyr a allai fod wedi cael eu haddysgu i gyflawni gweithdrefn gan aelod o staff gofal iechyd neu gymdeithasol.

All Wales Guidelines for Delegation



Adding a Welsh touch
Cymru Iechyd
Health Education and
Improvement Wales HEIWO



[Dolen i Ddirprwyo Canllawiau Cymru Gyfan](#)

Beth mae dirprwyo ac
atebolrwydd yn ei olygu i
chi?



Dirprwyo

- Aseinio cyfrifoldeb neu awdurdod i berson arall i gyflawni tasgau penodol
- Rhoi rheolaeth/cyfrifoldeb i rywun i ymddiried ynddo neu rywun sydd â dyletswydd/tasg



Atebolrwydd

- Rhwymedigaeth neu barodrwydd i dderbyn cyfrifoldeb neu i roi cyfrif am gamau gweithredu/tasgau a wneir
- Parodrwydd i fod yn atebol ar gyfer pob canlyniad yn sgil eich dewisiadau, eich ymddygiad a'ch camau gweithredu



Atebolrwydd

Er mwyn bod yn atebol, mae'n rhaid i ymarferwyr:

- Fod â'r gallu i gyflawni'r weithgaredd neu'r ymyriad
- Derbyn cyfrifoldeb dros wneud y gweithgaredd
- Bod â'r awdurdod i gyflawni'r gweithgaredd, trwy ddirprwyo a pholisiau a phrotocolau'r sefydliad
Coleg Nyrso Brenhinol



**Mae'n rhaid i'r
person sy'n
dirprwyo'r
dasg:**



- Fod yn fodlon bod y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad gennych i gyflawni'r dasg yn ddiogel ac yn effeithiol - yn wir, yr un mor ddiogel ac effeithiol ag y byddai aelod o staff cofrestredig yn ei wneud.
- Sicrhau eich bod wedi derbyn yr hyfforddiant priodol er mwyn cyflawni'r dasg.
- Sicrhau bod y dasg o fewn eich cylch gorchwyl fel Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd.
- Esbonio'n union yr hyn a ddisgwylir gennych chi wrth gyflawni'r dasg a sicrhau eich bod yn deall.
- Sicrhau eich bod yn hapus i gyflawni'r dasg.
- Sicrhau eich bod yn cael eich goruchwlio yn ystod y dasg.

Mae'n rhaid i chi:



- Ddeall yn llawn beth y gofynnir i chi ei wneud a pham.
- Cydnabod bod y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad gennych ac unrhyw hyfforddiant perthnasol i gyflawni'r dasg.
- Bod yn hapus i gyflawni'r dasg fel rhan o'ch gweithgaredd fel Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd.
- Bod yn hapus y cewch chi eich goruchwylio'n briodol.

**Ychydig o
Senarios er
mwyn helpu
i'w rhoi yn eu
cyd-destun**

Senario 1



Gofynnir i chi gyflawni gweithgaredd gwaith sy'n gofyn i chi ddefnyddio darn o offer nad ydych chi wedi ei ddefnyddio o'r blaen.

- Beth ddylech ei wneud?
- Ydy hyn yn ddirprwyo priodol/ amhriodol?
- Beth allai'r goblygiadau fod?

Ysgrifennwch eich syniadau er mwyn cyfeirio atynt

Sefyllfa 1



Gofynnir i chi gyflawni gweithgaredd gwaith sy'n gofyn i chi ddefnyddio darn o offer nad ydych chi wedi ei ddefnyddio o'r blaen.

- Beth ddylech ei wneud?

Peidiwch byth â defnyddio unrhyw offer nad ydych chi wedi eich hyfforddi i'w ddefnyddio.

- Ydy hyn yn ddirprwyo priodol/ amhriodol?

Nac ydy, gan y dylai'r person a ddirprwyodd y dasg i chi sicrhau bod y sgiliau, gwybodaeth/hyfforddiant gennych a'r gallu cywir i wneud yr hyn a ofynnwyd.

- Beth allai'r goblygiadau fod?

Gallai claf fod mewn perygl o niwed e.e. mae'r offer yn declyn codi nad ydych erioed wedi cael ei hyfforddi i'w ddefnyddio. Rydych yn rhoi'r claf i mewn i'r sling ac nid ydych yn cysylltu'r sling â'r peiriant yn gywir ac mae'r claf yn cwmpo ac yn torri ei glun.

Byddwch CHI yn atebol oherwydd i chi ymgymryd â'r dasg heb roi gwybod i'r person a ddirprwyodd y dasg nad ydych chi wedi cael eich hyfforddi.

Senario 2



Gofynnwyd i Weithiwr Cymorth Gofal Iechyd gan Ymarferydd Cofrestredig i helpu Mr Lewis gydag anghenion hylendid ac mae'n cyflawni'r dasg hon yn ystod sifft y bore. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw mae merch Mr Lewis yn gofyn am siarad â rheolwr y ward ac yn dweud bod ei thad yn anhapus ynglŷn â'r ffordd y cafodd ei olchi. Mae'n honni bod y Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd yn 'arw ac yn ddiotal' a bod y dŵr yn oer

Beth yw'r goblygiadau tebygol i'r Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd ac i'r Ymarferydd Cofrestredig?

Senario 2 parhad



- Beth yw'r goblygiadau tebygol i'r Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd ac i'r Ymarferydd Cofrestredig?
- Bydd angen i reolwr y ward ymchwilio i'r mater hwn a bydd yn siarad â'r ddau unigolyn ac â'r claf yn annibynnol i ofyn am eu fersiwn o'r digwyddiad. Edrychir ar y ddogfennaeth nyrsio er gwybodaeth.
- Os gwelir bod yr honiad yn wir, caiff y digwyddiad ei gymryd o ddifrif a chaiff camau ffurfiol eu cymryd.
- Cofiwch: dylech BOB AMSER ddogfennu mewn amser real a sicrhau eich bod yn rhoi manylion e.e. 19/11/20 am 8:40am cafodd Claf A ei olchi gyda dŵr cynnes a sebon gan Nyrs Gofrestredig B. Newidiwyd ei byjamas a chafodd ei ddannedd eu brwsio gyda phast dannedd gan ddefnyddio brws y claf ei hun. Cafodd y claf ei eillio'n lân gan ddefnyddio gel eillio y claf ei hun a sychwyd ei wyneb â thywel. Cafodd ei wallt ei frwsio ac mae'r claf yn dweud ei fod yn teimlo'n ffres. Rhoddwyd dillad gwely glân ac eisteddodd y claf i fyny yn y gwely gan ddefnyddio cynfasau llithro. Edrychwyd ar y manau gwasgedd ac roedd y croen yn gyfan.

Senario 3



Rydych yn derbyn hyfforddiant ar fflebotomi .
Rydych chi wedi cwblhau sesiynau ymarferol yn yr
ystafell ddosbarth gyda hyfforddiant ar fflebotomi
ac rydych wedi llwyddo i gael sampl gwaed o
wythien.

Mae prif nyrs y ward yn gofyn i chi gymryd sampl
gwaed o wythien claf?

Sut fydddech chi'n ymateb i'r e-bost hwn?

Senario 3




Rydych yn derbyn hyfforddiant ar fflebotomi. Rydych chi wedi cwblhau sesiynau ymarferol yn yr ystafell ddosbarth gyda hyfforddiant ar fflebotomi ac rydych wedi llwyddo i gael sampl gwaed o wythien.

Mae prif nyrs y ward yn gofyn i chi gymryd sampl gwaed o wythien claf?

Sut fydddech chi'n ymateb i'r e-bost hwn?

Fel rhan o'r hyfforddiant ar fflebotomi mae gofyn i chi arsylwi ar 5 a chymryd 5 sampl yn llwyddiannus ac felly nid ydych wedi'ch hyfforddi neu'n gymwys eto i gymryd gwaed yn annibynnol. NI ddylech dderbyn y cais hwn

Senario 4




Yn flaenrol cawsoch eich asesu'n gymwys wrth fonitro glwcos yn y gwaed. Nid ydych wedi cyflawni'r dasg ers tua blwyddyn ac nid ydych wedi mynychu eich diweddariad blynyddol eto.

Mae'r ward yn brysur iawn a gofynnir i chi gan ymarferydd cofrestredig wneud gwaith monitro glwcos yng ngwaed claf.

Pa gamau fydddech chi'n eu cymryd?

Beth yw canlyniadau posibl eich gweithredoedd?

Senario 4



Yn flaenorol cawsoch eich asesu'n gymwys wrth fonitro glwcos yn y gwaed. Nid ydych wedi cyflawni'r dasg ers tua blwyddyn ac nid ydych wedi mynychu eich diweddariad blynyddol eto.

Mae'r ward yn brysur iawn a gofynnir i chi gan ymarferydd cofrestredig wneud gwaith monitro glwcos yng ngwaed claf.

Pa gamau fydddech chi'n eu cymryd?

Ni ddylech dderbyn y dasg hon oherwydd bod eich bod yn hwyr ar gyfer cael eich diweddariad blynyddol ac nid ydych wedi diweddarau'r sgil hwn

Beth yw canlyniadau posibl eich gweithredoedd?

Byddwch yn cael eich dal yn atebol

Deddfwriaeth
Allweddol
a
Pholisi
Sefydliadol



Canllawiau Cymru Gyfan ar Ddirprwyo

Y Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr
Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru.

Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG
Cymru

Cofiwch



- ✓ Gweithiwch o fewn eich ffiniau a chwmpas eich ymarfer
- ✓ Os nad ydych yn teimlo'n hyderus i ymgymryd â thasgau/dyletswyddau, gwrthodwch a thrafodwch hwn gyda rheolwr eich ward
- ✓ Mae gan gleifion yr hawl i ddisgwyl yr un safon o ofal, gan bwy bynnag sy'n ei ddarparu, ac i wybod cymwysterau'r person hwnnw
- ✓ Dylid cyfeirio dirprwyo at fodloni anghenion a diddordebau'r cleifion

Diolch



Datblygu Sefydliadol Tachwedd 2020